Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Ionawr 2020

Presennol - Gethin Jones, Llyr Jones, Wyn Jones, Generys Roberts, Eryl Evans a Carol Humphreys – clerc.

Ymddiheuriadau gan y cynghorydd Peter Lewis a Gwenan Hitchmough.

Datgan diddordeb.

Arwyddwyd y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

**Gohebiaeth**

1. Cyngor Sir Conwy - Fforwm cynghorau - Clerc wedi mynychu y cyfarfod ac wedi adrodd yn ôl y gwybodaeth.

2. Cafwyd adroddiad ar yr offer ar ffens y cae chwarae darllenwyd y sylwadau a nodwyd rhai camau i'w datrys.

3. Fron Dirion - llythyr o ddiolch am y swper dolig.

4. Humphreys signs - Anfoneb am yr bwrdd hysbysu sydd wedi ei osod yn y blwch ffon lle gosodwyd y 'diffub' yn ddiweddar.

5. Rhys Jones - Anfoneb am symud y 'diffub' or capel ir blwch ffon yn y pentre.

6. Dwr Cymru - Anfoneb dwr.

7. Cyngor Sir Conwy - y trydydd rhan o brisept y cyngor.

8. Sefydliad Addysgol Cerrig y Drudion - llythyr yn gofyn am gyfraniad - pasiwyd i gyfrannu.

9. INNOGY - llythyr yn hysbysebu diwrnod agored ir cyhoedd yn Nghanolfan Uwchaled ar 25 o Ionawr am 10 hyd 1.00.

10. Rhys Jones - Tystysgrif trydanol ar y gwaith trydanol a wnaethpwyd yn y blwch ffon yn ddiweddar.

Gethin Jones Cadeirydd Carol Humphreys Clerc.